

STRATEGAETH AR GYFER TECHNOLEGAU AMGYLCHEDDOL YN Y SECTOR PEIRIANNEG GWASANAETHAU ADEILADAU 2010-13



STRATEGAETH AR GYFER TECHNOLEGAU AMGYLCHEDDOL YN Y SECTOR PEIRIANNEG GWASANAETHAU ADEILADAU

CYFLWYNIAD

Mae'r DU ar drothwy chwyldro carbon isel! Mae'r Llywodraeth yn ystyried yr economi werdd fel maes twf sylweddol y dylid ei gefnogi, yn wyneb yr ansicrwydd economaidd presennol a chystadleuaeth fyd-eang.

Mae pryderon am newid yn yr hinsawdd a sicrwydd cyflenwadau ynni yn cael eu cyfateb gan gymhellion i gynyddu'r defnydd o dechnolegau amgylcheddol ac adnewyddadwy. Mae'r tariff bwydo i mewn a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2010 yn darparu cefnogaeth ariannol hir dymor i dechnolegau fel paneli ffotofolteddau a thyrbinau gwynt.

Mae'r cymhelliad gwres adnewyddadwy, i'w lansio ym mis Ebrill 2011, hefyd yn cynnig cymorth ariannol i dechnolegau fel paneli thermol solar a phympiau gwres daear.

Credwn gyda'r sylfeini economaidd hyn, gall y farchnad ddatblygu'n gyflym a darparu cyfle ardderchog i beirianneg gwasanaethau adeiladau elwa.

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio sut bydd SummitSkills yn gweithio ar ran y sector i gipio a manteisio ar gyfleoedd i helpu'r DU symud tuag at ddyfodol carbon isel.

RÔL SUMMITSKILLS

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r hyn y mae SummitSkills yn bwriadu'i gyflawni mewn perthynas â thechnolegau amgylcheddol yn y sector Peirianeg Gwasanaethau Adeiladau (BSE). Cafodd ei datblygu i gydnabod y gwaith a wnaed eisoes, cyflawniadau hyd yn hyn a'r sefyllfa y byddwn yn gweithio oddi mewn iddi yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Mae ein hamcanion craidd yn parhau'n flaenoriaeth i ni. Mae ymgysylltu cyflogwyr, safonau, cymwysterau a Hysbysrwydd y Farchnad Lafur yn hanfodol o safbwynt datblygu gweithlu medrus iawn i'r sector BSE. Yn benodol, mae Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC) yn parhau i fod yn bwysig. Yn gynyddol mae cyflogwyr yn sylweddoli nad sail ar gyfer cymwysterau perthnasol yn unig yw safonau da, ond eu bod yn offeryn gwerthfawr ar gyfer rheolaeth weithredol effeithiol a diweddar. Yn bwysig hefyd mae cymwysterau sy'n werthfawr yn economaidd, sy'n sylfaen sector cynhyrchiol iawn ac felly'n haeddu arian cyhoeddus.

Fel sefydliad â chyfrifoldebau DU gyfan, mae'n rhaid i SummitSkills gydbwysu ei waith i fynd i'r afael ag anghenion penodol rhannau unigol y DU. Mae'r cynllun hwn yn cydnabod y gwahaniaethau pwysig ymysg y gweinyddiaethau datganoledig a'r angen i ymateb iddynt mewn ffyrdd arloesol. Mae'r cynnig darlun clir o rôl ac uchelgeisiau SummitSkills i dechnolegau amgylcheddol yn y blynyddoedd i ddod. Byddwn yn cyflawni'r gwaith hwn mewn ffordd agored ac atebol, ac yn croesawu unrhyw sylwadau ac adborth.

Ein bwriad hefyd yw gweithio ar y cyd â CSSau eraill â chanddynt ddiddordeb mewn technolegau amgylcheddol a ffynonellau ynni adnewyddadwy, a ffurfio partneriaethau effeithiol lle mai dyma'r ffordd orau ymlaen.

TECHNOLEGAU AMGYLCHEDDOL YN ÔL-TROED SUMMITSKILLS

Cynhyrchwyd y cynllun hwn ar gyfer y technolegau amgylcheddol canlynol:

- treuliant anaerobig
- biodanwyddau
- gwres a phŵer cyfun
- technoleg celloedd tanwydd
- pypiau gwres
- awyru adfer gwres mecanyddol
- systemau cynhyrchu hydro meicro
- ynni gwynt meicro
- ffotofolteddau solar
- gwresogi dŵr poeth solar
- ailgylchu dŵr



Mae SummitSkills wedi cynhyrchu Cytundeb Sgiliau Sector (CSS) i'r sector. Amlygodd y CSS yr angen i:

- ddatblygu a gweithredu SGC ar gyfer technolegau amgylcheddol presennol ac ymddangosol ar gyfer galwedigaethau crefft, technegol a phroffesiynol.
- diweddarau a chynnal cymwysterau i adlewyrchu sgiliau adnewyddadwy ac amgylcheddol.
- sicrhau bod technolegau amgylcheddol yn cael eu hintegreiddio'n llawn â gweithgareddau eraill, fel y strategaeth yrfaedd a fframweithiau hyfforddi prentisiaid.

Yn 2008, ymgymerasom ag ymchwil ychwanegol i mewn i themâu penodol yn codi o'r CSS. Un o'r themâu yr ymchwiliwyd ymhellach iddi oedd technolegau amgylcheddol yn y sector. Canfyddiadau allweddol yr ymchwil hyn oedd:

- mae amlygiad presennol y sector i dechnolegau amgylcheddol a'i gymhwysedd ynddynt yn gyfyng. Mae peth clystyru penodol o ran technolegau o gwmpas rhanbarthau, gyda rhai ardaloedd yn dangos diddordeb mewn technolegau adnewyddadwy penodol, ond mae ymgysylltu yn gyffredinol yn isel.
- mae nifer uchel o gwmnïau yn aros am ysgogiad yn y farchnad cyn buddsoddi amser ac arian fel datblygu sgiliau ac ehangu i mewn i dechnolegau newydd.
- mae'r cyflenwad presennol o gyfleoedd hyfforddiant yn annigonol, o ran swm ac mewn perthynas â chymwysterau ffurfiol a mesur yn erbyn safonau cenedlaethol.
- mae hyfforddiant mewn ynni adnewyddadwy yn cael ei wneud gan weithgynhyrchwyr yn bennaf. Bydd cynnydd sydyn yn y defnydd o dechnolegau amgylcheddol yn creu galw mawr am hyfforddiant, na fydd y rhwydwaith cyflenwyr yn gallu'i ddiwallu.
- mae Llundain yn arbennig o fregus oherwydd yr ymrwymiad uchel i ddatblygu technolegau newydd, y Gemau Olympaidd, a'r nifer uchel o adeiladau ysblennydd arfaethedig sy'n debygol o ymgorffori'r datrysiadau amgylcheddol mwyaf soffistigedig o ran technoleg.
- rhaid ystyried niferoedd yr hyfforddwyr diegwyddor sy'n manteisio ar y diffyg hyfforddiant achrededig.
- mewn rhai rhanbarthau yn Lloegr, bydd datblygiad cyffredinol hyfforddiant mewn technolegau amgylcheddol newydd penodol yn amhriodol, o ganlyniad i ddiffyg galw. Mae angen archwilio'r effaith glystyru hon ymhellach a chymryd camau i gyfateb y galw i'r cyflenwad.

Roedd yr ymchwil hefyd yn cynnwys Gwybodaeth y Farchnad Lafur am nifer y gweithredwyr yn y sector y bydd angen eu hyfforddi erbyn 2011. Mae ymchwil diweddar wedi cynhyrchu'r ffigurau hyn hyd at 2020.

Drwy ddatblygu'r CSS a'r ymchwil ychwanegol, rydym yn cydnabod yr angen i ddarparu arweinyddiaeth gref. Bydd hyn yn sicrhau y bydd y sector nid yn unig yn ymgysylltu â thechnolegau amgylcheddol i'r graddau sy'n cyflawni'r manteision mwyaf i'r sector, ond hefyd i sicrhau bod y sector yn cyflawni'r effaith fwyaf i dargedau'r DU ar gyfer cynaliadwyedd, gostyngiadau mewn allyriadau carbon a chynhyrchu ynni adnewyddadwy, a rheoli ynni ac adnoddau.

Mae SummitSkills a rhanddeiliaid y sector eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol ym maes technolegau amgylcheddol. Mae cyflawniadau hyd yn hyn yn cynnwys:

1. SAFONAU, CYMWYSTERAU A CHYMHWYSEDD:

Mewn ymateb i ganfyddiadau'r CSS, rydym wedi datblygu cyfres o 16 CSS ar gyfer Technolegau Amgylcheddol; wyth uned i weithredwyr ac wyth uned uwch. Mae'r SGC hyn yn darparu'r llwyfan i gyflogwyr yn ôl-troed SummitSkills ddatblygu eu gweithlu, gan ganiatáu iddynt gynghori ar a/neu ymgymryd â dylunio, gosod, comisiynu, gwasanaethu a chynnal a chadw systemau domestig a diwydiannol/masnachol, sy'n ymgorffori technolegau amgylcheddol presennol ac ymddangosol.

Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth annog a chefnogi'r defnydd o'r SGC i ddiffinio'r gofynion cymhwysedd ar gyfer unrhyw waith a hyfforddiant mewn perthynas â systemau technoleg amgylcheddol. Enghraifft o hyn yw'r defnydd o'r SGC i ddatblygu a diffinio'r gofynion cymhwysedd ar gyfer y Cynllun Ardystio Meicrogynhyrchu, a'r cynlluniau ardystio amgen yn y gweinyddiaethau datganoledig.

Mae strwythurau cymwysterau'r sector wedi'u hadolygu a'u diwygio i ymgorffori datrysiadau technoleg amgylcheddol. Mae gwaith datblygu ar waith i ddatblygu'r cymwysterau newydd. Mae'r gwaith hwn yn cael ei alinio i gyflwyno'r Fframwaith Credydau a Chymwysterau (FfCCh) yn 2011, y Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban cyfatebol (FfCChA), a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC).

2. GRŴP YMGYNGHOROL CYMHWYSEDD BSE:

Sefydlwyd y grŵp ymgynghorol cymhwysedd BSE gan SummitSkills ym mis Rhagfyr 2009 i:

- ystyried a chynghori ar y gofynion cymhwysedd technegol isafswm ar gyfer y Cynllun Person Cymwys Rheoliadau Adeiladu (fel y bo'n berthnasol i'r sector peirianeg gwasanaethau adeiladau) a'r Cynllun Ardystio Meicrogynhyrchu.
- nodi ac argymhell lle y byddai'n synhwyrol, yn briodol ac yn ymarferol i alinio'r gofynion cymhwysedd technegol isafswm ar gyfer y Cynllun Person Cymwys Rheoliadau Adeiladu a'r Cynllun Ardystio Meicrogynhyrchu (MCS).
- ystyried goblygiadau datblygu gofynion cymhwysedd wedi'u halinio a'r heriau y mae hyn yn eu cynrychioli ynghyd â darparu arweiniad i adrannau'r llywodraeth a rhanddeiliaid eraill i sicrhau datrysiadau arfer gorau a negeseuon defnyddwyr cywir.

Mae'r grŵp ymgynghorol wedi gwneud cynnydd da ac wedi argymhell gofynion cymhwysedd i MCS a'r Fforwm Personau Cymwys ar gyfer dŵr poeth solar, ffotofolteddau solar, pypiau gwres, cynaeafu dŵr glaw ac aildefnyddio dŵr llwyd. Mae gan y grŵp ymgynghorol rôl allweddol o ran cael gwared ar y dryswch presennol ynghylch gofynion cymhwysedd cydnabyddedig y diwydiant ar gyfer systemau technegol amgylcheddol.

3. GRŴP YMGYNGHOROL STRATEGOL GWEITHGYNHYRCHU A CHYNALADWYEDD:

Sefydlwyd y grŵp strategol ac ymgynghorol (diddordeb gynt) hwn i ddarparu cyswllt allweddol gyda gweithgynhyrchwyr cynnyrch ac mae'r grŵp yn hwyluso cydweithio gyda gweithgynhyrchwyr, a rhanddeiliaid eraill â diddordeb mewn cynaladwyedd a thechnolegau amgylcheddol. Drwy'r fforwm hwn, gallwn nodi technolegau ymddangosol a gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i nodi anghenion sgiliau a chymhwysedd a datblygu datrysiadau hyfforddiant amserol.

CEIR CRYNODEB O’N GWAITH YM MHOB GWLAD ISOD:

Rydym yn gweithio ar draws pob un o bedair gwlad y DU, ac nid yw technolegau amgylcheddol yn eithriad. Rydym yn gweithio’n agos â phob llywodraeth a rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod y sector yn cael ei gydnabod yn llawn fel yr arweinydd fel cynaladwyedd, lleihau allyriadau carbon, ynni adnewyddadwy, a rheoli ynni. Rydym yn ymwneud yn rhagweithiol mewn ystod eang o fforymau a grwpiau llywio ac mae ein hymwneud yn allweddol i sicrhau bod gofynion y farchnad lafur yn cael eu nodi a bod datrysiadau sgiliau a hyfforddiant amserol yn cael eu datblygu a’u rhoi ar waith.

LLOEGR:

Rydym yn gweithio’n gydweithredol â holl adrannau’r llywodraeth ganolog a gyda phob un o’r naw asiantaeth datblygu ranbarthol. Rydym yn aelod o Grŵp Strategaeth Gwresogi Partneriaeth Effeithlonrwydd Ynni Cartrefi yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ac rydym yn ymwneud yn weithgar â nodi ac ymateb i anghenion sgiliau a chymhwysedd y diwydiant gwresogi ar gyfer technolegau amgylcheddol.

GOGLEDD IWERDDON:

Rydym yn gweithio’n agos â’r Adran Cyflogaeth a Dysgu ac yn gweithio mewn partneriaeth â’r Gweithgor Ynni Adnewyddadwy Traws Sector i nodi gofynion y farchnad lafur ar gyfer ynni adnewyddadwy. O ganlyniad i’r ymchwil hwn, yn 2007/08 datblygwyd a chyflwynwyd ystod o gyrsiau hyfforddiant ynni adnewyddadwy, ac mae’r rhain wedi’u hadolygu a’u diweddarau yn ddiweddar. Hwylusodd SummitSkills sawl grŵp ffocws i sefydlu gofynion cyflogwyr ar gyfer diweddarau’r hyfforddiant presennol. Yn seiliedig ar adborth gan gyflogwyr, ymgysylltwyd â darlithwyr mewn addysg bellach i adolygu cynnwys cyrsiau presennol ar gyfer dŵr solar, pypiau gwres a thechnolegau biomas.

YR ALBAN:

Rydym yn gweithio’n agos â Fforwm polisi Llywodraeth yr Alban ar gyfer Datblygu Ynni Adnewyddadwy yr Alban (FREDS), a gweithredu Fframwaith Sgiliau Gweithredu ei Chynllun Gweithredu Adnewyddadwy (RAP), ynghyd â’i Gynllun Gweithredu Effeithlonrwydd Ynni cysylltiedig, Scottish Renewables, ac Awdurdod Cymwysterau’r Alban wrth ddatblygu cymwysterau newydd seiliedig ar gymwyseddau ar gyfer systemau technoleg amgylcheddol.

Rydym hefyd wedi gweithio’n agos â’n prif bartneriaid Cymdeithas Fasnach sef SELECT/SNIPEF & HVCA, a’r Adran Safonau Adeiladu i gefnogi datblygu Cynllun Ardystio i’r Alban i achredu gosodwyr sy’n ymgymryd â gosod systemau technoleg meicro-adnewyddadwy. Rydym hefyd wedi cefnogi datblygu Canolfan Hyfforddiant Technolegau Amgylcheddol a arweinir gan y diwydiant mewn partneriaeth â gweithgynhyrchydd pwysig, gyda dyddiad gweithredu targed o fis Medi 2010, fydd yn sicrhau gweithredu hyfforddiant sgiliau o safon uchel i’r sector.

CYMRU:

Rydym yn gweithio’n agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru a rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod y sector yn cael ei gydnabod fel cydran allweddol wth gefnogi Cymru i gwrdd â’i huchelgeisiau carbon isel a thargedau cynaladwyedd ar gyfer rheoli adnoddau ynni a dŵr. Rydym yn ymwneud yn weithgar â Pharth Carbon Sero-Isel Cymru, Cynghrair Cartrefi Presennol Cymru, Grŵp Strategol yr Amgylchedd Adeiledig a rhaglen adfywio Blaenau’r Cymoedd.

AMCANION YN YMWNEUD Â THECHNOLEGAU AMGYLCHEDDOL

Mae SummitSkills wedi dyfeisio pum amcan strategol i ddarparu dealltwriaeth glir o'r prif feysydd gwaith a'r rhai pwysicaf y mae angen i ni ganolbwyntio arnynt. Y rhain yw:

1) ARWEINYDDIAETH

darparu arweinyddiaeth weledigaethol ac ymarferol i alluogi cyflawni'r weledigaeth

2) INTEGREDDIO

integreiddio technolegau amgylcheddol i mewn i'r sector

3) YMGYSYLLTU'R SECTOR

annog busnesau a gweithwyr y sector i ymgysylltu â thechnolegau amgylcheddol

4) HYFFORDDIANT

sicrhau bod gan y sector fynediad i hyfforddiant perthnasol o safon uchel

5) PARTNERIAETH

ffurfio partneriaethau effeithiol i weithredu'r amcanion hyn a chefnogi eraill wrth weithredu eu hamcanion

Yn y tudalennau sy'n dilyn, rydym yn amlinellu pob un o'r amcanion hyn ac yn egluro pam mae'r meysydd hyn yn bwysig a sut mae SummitSkills yn bwriadu mynd i'r afael â hwy, sut bydd llwyddiant yn cael ei fesur a sut byddwn yn gweithredu ac yn gwerthuso'r cynllun cyffredinol.



**Pam ydym yn gwneud hyn?**

Mae'n hanfodol bod y sector BSE yn ymgysylltu â thechnolegau amgylcheddol.

Mae gan y sector y cyfle i wireddu buddion a manteision masnachol sylweddol drwy ymgysylltu â thechnolegau amgylcheddol. Bydd ymgysylltu o'r fath yn gwneud y sector yn fwy deniadol i newydd ddyfodiaid, yn ymestyn ac yn gwella rolau gweithwyr presennol y sector, yn cynyddu trosiant a phroffidioldeb busnesau'r sector, ac yn helpu i ddiogelu'r sector at y dyfodol.

Ni fydd targedau'r DU ar gyfer cynaladwyedd, lleihau allyriadau carbon a chynhyrchu ynni adnewyddadwy, a rheoli ynni ac adnoddau yn gyflawnadwy heb gyfraniad y sector. Rydym eisoes mewn sefyllfa o ddal i fyny ac i osgoi llithriant pellach mae'n hanfodol bod y sector yn ymgysylltu'n llawn â thechnolegau amgylcheddol cyn gynted â phosib.

Yr allwedd i wireddu a mwyafu potensial i'r sector a chefnogi cyflawni targedau'r DU yw gweithlu priodol fedrus. Fel Cyngor Sgiliau Sector, SummitSkills yw'r sefydliad priodol i ddarparu'r arweinyddiaeth i gyflawni'r weledigaeth i'r sector.

**Beth yw'r cynllun?**

Mae pedwar prif liny'n i'n gwaith yn erbyn yr amcan hwn:

Dealltwriaeth: byddwn yn ymgymryd â'r rhwydweithio, ymchwil a dadansoddi angenrheidiol i sicrhau fod gennym ddealltwriaeth drylwyr a chllir o'r polisi, y farchnad waith, datblygiadau technolegol, ac anghenion cyflogwyr a rhanddeiliaid ar gyfer technolegau amgylcheddol.

Cynllunio sefyllfaoedd: byddwn yn datblygu sefyllfaoedd ar gyfer defnyddio technolegau amgylcheddol ac o'r sefyllfaoedd hyn yn pennu gofynion y farchnad lafur. Yna byddwn yn defnyddio gofynion y farchnad lafur i nodi a yw darpariaeth a gallu perthnasol yn bodoli er mwyn darparu gweithlu priodol fedrus.

Codi proffil: byddwn yn parhau i godi proffil y sector drwy gyfathrebu a chyhoedduswydd effeithiol, gan amlygu'r rôl allweddol sydd gan y sector wrth fwyafu effaith ar gyfer cynaladwyedd, lleihau allyriadau carbon a chynhyrchu ynni adnewyddadwy, a rheoli ynni ac adnoddau.

Arloesedd: nodi cyfleoedd ar gyfer arloesedd ac annog a chefnogi arloesedd. Byddwn yn ceisio gwthio ffiniau a gweithio gyda rhanddeiliaid y sector i dorri cwys newydd. Byddwn yn monitro datblygiadau technolegol ac yn datblygu safonau, sgiliau a datrysiadau hyfforddiant sy'n galluogi busnesau a gweithwyr i fod yn arloesol.

**Sut byddwn yn mesur llwyddiant?**

Byddwn yn mesur llwyddiant fel a ganlyn:

Byddwn yn cynhyrchu ac yn cytuno â rhanddeiliaid perthnasol gynllun gwaith blynyddol ar gyfer technolegau amgylcheddol sy'n cynnwys manylion gweithgareddau ar gyfer pob gwlad yn y DU.

Ymgymerir â phrosiect cynllunio sefyllfa amgylcheddol blynyddol, nodir gofynion cysylltiedig y farchnad lafur a nodir gweithrediadau perthnasol a'u hymgorffori i mewn i gynlluniau busnes a gweithredu SummitSkills.

Cydnabyddiaeth gadarn gan y llywodraeth a rhanddeiliaid allanol fod y sector yn allweddol o safbwynt cynaladwyedd, lleihau allyriadau carbon a chynhyrchu ynni adnewyddadwy, a rheoli ynni ac adnoddau.

Astudiaethau achos a thystiolaeth gadarn o sefyllfaoedd lle mae arloesedd wedi'i annog a'i gymhwyso, ac astudiaethau achos o safonau, sgiliau a datblygu datrysiadau hyfforddiant mewn technolegau amgylcheddol.



Pam ydym yn gwneud hyn?

Mae adeiladau yn cyfrannu cyfran uchel o allyriadau carbon y DU ac wrth i'r stoc adeiladau presennol heneiddio gallai hyn gynyddu. Un dull o leihau carbon yw integreiddio ffynonellau ynni adnewyddadwy i mewn i wasanaethau adeiladau. Mae gan beirianwyr gwasanaethau adeiladau y sgiliau a'r cymwyseddau allweddol eisoes sy'n angenrheidiol i sicrhau y gwneir hyn yn y ffordd orau.

Bydd galw cynyddol hefyd am dechnolegau amgylcheddol mewn tai newydd. Eto, mae mewnbyn gan y sector yn hanfodol i sicrhau bod y technolegau cywir yn cael eu defnyddio a'u bod yn cael eu gosod, eu comisiynu a'u cynnal a'u cadw yn gywir.

Mae integreiddio technolegau amgylcheddol newydd i mewn i'r sector felly yn cael ei ystyried o'r pwys pennaf. Mae gan y sector rôl allweddol i'w chwarae wrth liniaru newid yn yr hinsawdd, gwella cynladwyedd a chadw adnoddau.



Beth yw'r cynllun?

Amlygodd ymchwil ar gyfer y CSS fod cyflogwyr a rhanddeiliaid y sector yn ystyried technolegau amgylcheddol fel estyniad o alwedigaethau presennol y sector yn hytrach na galwedigaeth newydd i'r sector.

Bydd SummitSkills yn ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol i integreiddio technolegau amgylcheddol yn llawn i mewn i ôl-troed y sector gyda'r nod o sicrhau'r canlynol:

- bydd y sector, ei fusnesau a'i weithwyr yn cael eu cydnabod fel elfennau allweddol wrth liniaru newid yn yr hinsawdd, gwella cynladwyedd a chadw adnoddau drwy'r defnydd o dechnolegau amgylcheddol
- mae'r sector mewn sefyllfa briodol i fwyafu'r cyfraniad y mae ef a'r DU yn ei wneud i liniaru newid yn yr hinsawdd, gwella cynladwyedd a chadw adnoddau
- mae busnesau'r sector yn ymgysylltu â thechnolegau amgylcheddol fel gweithgarwch gwaith arferol ac yn cydnabod manteision cynyddu eu lefel o ymgysylltiad yn rhagweithiol
- mae'r sector mewn sefyllfa briodol i wireddu a mwyafu'r cyfleoedd masnachol a phroffidioldeb a ddarperir gan dechnolegau amgylcheddol



Sut byddwn yn mesur llwyddiant?

Byddwn yn mesur llwyddiant fel a ganlyn:

Cydnabyddir y sector gan newydd ddyfodiaid posib fel elfen allweddol mewn lliniaru newid yn yr hinsawdd, gwella cynladwyedd a chadw adnoddau.

Cydnabyddir y sector gan lywodraethau'r DU a rhanddeiliaid allanol eraill fel elfen allweddol mewn lliniaru newid yn yr hinsawdd, gwella cynladwyedd a chadw adnoddau.

Mae gan fusnesau a gweithwyr y sector fynediad i ddatrysiadau hyfforddiant a datblygiad y diwydiant sy'n cefnogi'r ymgysylltiad mwyaf ac amserol gyda thechnolegau amgylcheddol.

Mae nifer busnesau'r sector sy'n cynnig cynnyrch a gwasanaethau sy'n berthnasol i dechnolegau amgylcheddol yn dangos tuedd sy'n gwella.

Mae'r defnydd o dechnolegau amgylcheddol yn ôl-troed y sector yn dangos tuedd sy'n gwella.



Pam ydym yn gwneud hyn?

Mae gan fusnesau a gweithwyr y sector ddylanwad sylweddol dros benderfyniadau cleientiaid i ddefnyddio cynnyrch neu dechnoleg benodol. Heb ymgysylltu cyflogwyr a gweithwyr y sector, mae'n debygol y bydd y defnydd o dechnolegau amgylcheddol yn annigonol i gefnogi cyflawni targedau'r DU sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, cynladwyedd ac ynni adnewyddadwy.

Mae ymgysylltu â thechnolegau amgylcheddol yn cynnig cyfleoedd masnachol sylweddol ar gyfer twf a phroffidioldeb busnesau'r sector ac i'r sector cyfan. Bydd methu ag ymgysylltu yn niweidio proffidioldeb y sector ac yn annog cystadleuaeth ryngwladol i mewn i'r farchnad. Gallai perfformiad cynhyrchedd yn y sector syrthio y tu ôl i gystadleuaeth o dramor, wrth i weithwyr y sector ddod yn llai medrus o'u cymharu â'u cymheiriaid dramor.



Beth yw'r cynllun?

Mae pedwar prif llyn i'n gwaith yn erbyn yr amcan hwn:

Datblygu cyfle: sicrhau bod gan fusnesau a gweithwyr y sector ar bob lefel y cyfleoedd perthnasol i ymgysylltu â thechnolegau amgylcheddol a datblygu'r sgiliau a chymhwysedd angenrheidiol sy'n briodol i'w rôl swydd a/neu ddyheadau.

Hyrwyddo ymgysylltu: hyrwyddo manteision ymgysylltu â thechnolegau amgylcheddol drwy gydweithio â rhanddeiliaid y sector, drwy weithgareddau hyrwyddo cenedlaethol a rhanbarthol, a thrwy ddeunyddiau hyrwyddo fel astudiaethau achos i gyfathrebu sut mae busnesau a gweithwyr y sector wedi ymgysylltu â thechnolegau amgylcheddol a'r manteision sydd wedi dilyn.

Cael gwared ar ddryswch, cynnig eglurder: cael gwared ar ddryswch ynghylch sut i ymgysylltu â thechnolegau amgylcheddol a darparu eglurder ynghylch y sgiliau a'r cymhwysedd sydd eu hangen i ymgysylltu â thechnolegau amgylcheddol.

Ceisio arian: cyd-gysylltu a dylanwadu ar gyrff ariannu cenedlaethol a rhanbarthol gyda'r nod o sicrhau arian i gefnogi busnesau a gweithwyr y sector mewn ymgysylltu â thechnolegau amgylcheddol.



Sut byddwn yn mesur llwyddiant?

Byddwn yn mesur llwyddiant fel a ganlyn:

Mae cyfleoedd perthnasol yn bodoli ar draws y DU i alluogi newydd ddyfodiaid a gweithwyr presennol y sector i ddatblygu a/neu ddangos sgiliau a chymhwysedd a gydnabyddir gan y diwydiant i weithio gyda thechnolegau amgylcheddol.

Cynnydd yn y busnesau a'r gweithwyr presennol yn y sector sy'n ymgysylltu â thechnolegau amgylcheddol. Bydd hyn yn cael ei fonitro drwy ddadansoddi data cyfranogiad hyfforddiant, ac aelodaeth o gynlluniau perthnasol y diwydiant.

Argaeledd gwybodaeth gywir a chlr am sut gall busnesau ac unigolion y sector ymgysylltu â thechnolegau amgylcheddol, yn cynnwys gwybodaeth am gynlluniau'r diwydiant, gofynion sgiliau a chymhwysedd a chymwysterau a datrysiadau hyfforddiant cysylltiedig.

Mae cyfleoedd ariannu yn bodoli i gefnogi busnesau ac unigolion y sector i gyfranogi mewn hyfforddiant i ddatblygu sgiliau a chymhwysedd ar gyfer technolegau amgylcheddol.

**Pam ydym yn gwneud hyn?**

I ymgysylltu'n effeithiol â thechnolegau amgylcheddol, mae angen ar gyflogwyr a gweithwyr y sector fynediad i hyfforddiant perthnasol o safon uchel sy'n rhoi sgiliau perthnasol, hyblyg o safon uchel iddynt.

Mae ymddangosiad technolegau newydd yn cynnig cyfleoedd, ond mae hefyd yn cyflwyno bygythiadau a heriau. Heb fynediad i hyfforddiant perthnasol o safon uchel mae perygl y gallai rhai busnesau a gweithwyr y sector ymgysylltu yn ddiarwybod mewn hyfforddiant nad yw'n seiliedig ar safonau perthnasol, nad yw'n cael ei gydnabod gan y diwydiant ac felly yn cael ei ystyried yn rhywbeth nad yw'n werthfawr yn economaidd.

Mae cynlluniau'r llywodraeth fel y Cynllun Ardystio Meicrogynhyrchu a'i gynlluniau amgen yn y gweinyddiaethau datganoledig, Rheoliadau/Safonau Adeiladu, a Chynlluniau Person Cymwys (lle mae'r rhain yn berthnasol), yn gofyn am lefelau o gymhwysedd technegol isafswm. Mae'n hanfodol fod gan fusnesau a gweithwyr y sector fynediad i hyfforddiant perthnasol o safon uchel sy'n rhoi'r cyfle iddynt gyfranogi mewn cynlluniau o'r fath.

**Beth yw'r cynllun?**

Mae SummitSkills yn gweithio gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid yn Lloegr i ddatblygu Academi Genedlaethol ar gyfer Technolegau Amgylcheddol. Y nod yw datblygu rhwydwaith gweithredu dysgu ac asesu sy'n ddigonol i gwrdd ag anghenion datblygu technoleg amgylcheddol gweithlu presennol a dyfodol y sector.

Mae SummitSkills eisoes wedi datblygu cyfres o SGC ar gyfer technolegau amgylcheddol. Mae'r gyfres yn cynnwys unedau ar gyfer galwedigaethau gweithredwyr ac uwch. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu defnyddio mor eang â phosib i ddiffinio gofynion cymhwysedd ar gyfer dylunio, manylebu, gosod, comisiynu, arolygu, gwasanaethu a chynnal a chadw systemau technoleg amgylcheddol yn ôl-troed y sector.

Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i ddatblygu cymwysterau ac unedau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) sy'n rhoi'r cyfle i newydd ddyfodiaid a gweithwyr presennol gael mynediad i a datblygu sgiliau sy'n werthfawr yn economaidd a chymhwysedd ar gyfer gweithio gyda thechnolegau amgylcheddol, a sicrhau bod y rhain yn rhan o'r FfCCh, FfCChA a FfCChC.

Byddwn yn gweithio gyda gweithgynhyrchwyr, cyrff ardystio ac eraill sy'n cynnig datrysiadau hyfforddiant technoleg amgylcheddol i annog a chefnogi mapio cyrsiau presennol a rhai newydd i'r SGC.

**Sut byddwn yn mesur llwyddiant?**

Byddwn yn mesur llwyddiant fel a ganlyn:

Cydnabyddir a defnyddir y SGC ar gyfer systemau technoleg amgylcheddol fel y llwyfan ar gyfer datblygu'r sgiliau a'r gofynion cymhwysedd ar gyfer technolegau amgylcheddol.

Mae cymwysterau a gydnabyddir yn rhyngwladol a chyfleoedd DPP fel y diffiniwyd gan y FfCCh, FfCChA a FfCChC ar gael i newydd ddyfodiaid a gweithwyr presennol y sector ar bob lefel, yn cynnwys y rheiny sy'n cwblhau fframweithiau prentisiaethau.

Mae'r gofynion cymhwysedd ar gyfer cynlluniau'r llywodraeth sy'n gysylltiedig â defnyddio a/neu osod systemau technoleg amgylcheddol yn seiliedig ar y SGC ar gyfer systemau technoleg amgylcheddol, ac yn cysylltu â'r Cyfarwydddebau Undeb Ewropeaidd priodol.

Mae gweithgynhyrchwyr, cyrff ardystio a sefydliadau eraill sy'n cynnig datrysiadau hyfforddiant technoleg amgylcheddol yn cydnabod manteision mapio cyrsiau presennol a newydd i'r SGC ar gyfer technolegau amgylcheddol, ac maent yn ymwneud â'r broses yn weithgar.

Mae digon o allu yn bodoli ym mhob gwlad a rhanbarth y DU i weithredu hyfforddiant perthnasol, ymatebol o safon uchel ar gyfer technolegau amgylcheddol.

**Pam ydym yn gwneud hyn?**

Nid yw SummitSkills yn gweithredu mewn gwagle: mae gan gyflogwyr, rhanddeiliaid a phartneriaid eraill ddiddordeb yn yr hyn yr ydym yn ei wneud a sut yr ydym yn ei wneud. Yn yr un modd, mae gan SummitSkills ddiddordeb yn yr hyn y mae eraill yn ei wneud a sut y maent yn ei wneud. Rydym yn cydnabod bod ymagwedd partneriaid a chydweithio yn cyflawni mwy o fudd ac effaith na'r hyn a gyflawnir drwy gymhwyso ymdrech unigol.

Mae SummitSkills yn cydnabod pa mor fawr yw'r dasg o fynd i'r afael â lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, cynaladwyedd a chadw adnoddau. Mae'r materion hyn yn rhai byd-eang. Mae gan bob gwlad, economi, sector, busnes ac unigolyn ddiddordeb ac felly mae angen mynd i'r afael â'r materion hyn gan ddefnyddio ymagwedd ar y cyd.

**Beth yw'r cynllun?**

Mae SummitSkills wedi sefydlu rhwydweithiau amrywiol fel rhan o'r CSS. Eisoes yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU mae fforymau sefydledig a llwyddiannus a byddwn yn defnyddio'r fforymau hyn i weithredu ein hamcanion ar gyfer technolegau amgylcheddol.

Mae SummitSkills yn gweithio'n agos â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig, a byddwn yn parhau i wneud hynny i sicrhau bod diddordebau'r sector mewn technolegau amgylcheddol yn hysbys ac yn cael eu gwerthfawrogi; bod cyfraniad posib y sector at fynd i'r afael â materion lliniaru newid yn yr hinsawdd, cynaladwyedd a chadw adnoddau yn hysbys; a bod angen y sector i fwyafu ymgysylltiad â technolegau amgylcheddol yn cael ei gyfathrebu a'i gydnabod.

Byddwn yn parhau i gydweithio â phartneriaid yn y diwydiant a gyda CCSau a chyrff eraill i fynd i'r afael â'r sgiliau a'r cymhwysedd sy'n ymwneud â technolegau amgylcheddol.

**Sut byddwn yn mesur llwyddiant?**

Byddwn yn mesur llwyddiant fel a ganlyn:

Trefniadau partneriaeth perthnasol yn eu lle sy'n cefnogi'r sector yn effeithiol wrth fynd i'r afael â technolegau amgylcheddol, yn cefnogi gweithredu amcanion y sector dros weithio gyda technolegau amgylcheddol, ac yn cefnogi rhanddeiliaid eraill wrth weithredu eu hamcanion.

Cydnabyddir y sector gan adrannau'r llywodraeth a rhanddeiliaid eraill fel partner allweddol ar gyfer defnyddio technolegau amgylcheddol, lliniaru newid yn yr hinsawdd, gwella cynaladwyedd a chadw adnoddau.

GWEITHREDU YN ERBYN Y STRATEGAETH A GWERTHUSO CYNNYDD

Mae ein henw da am ymatebolrwydd a safonau uchel ym mhob peth yr ydym yn ei wneud yn hanfodol i'n llwyddiant. Caiff cynnydd o ran gweithredu yn erbyn y strategaeth hon ei asesu yn rhannol yn erbyn y mesurau llwyddiant a nodir yn ymyl pob amcan.

Mae datblygu sgiliau yn digwydd fesul cam a gall y ffordd fod yn hir a chymhleth. Rydym yn ymrwymedig i gyflawni'r amcanion a nodir yn y cynllun hwn, ond yn cydnabod ei fod yn fwy tebygol y bydd peth effaith ein gwaith yn cael ei gweld a'i chydabod gan genedlaethau'r dyfodol.

Bydd mesur ein llwyddiant yn gofyn am ddealltwriaeth o effaith bositif ein gwaith a'r newidiadau yr ydym wedi helpu eu creu ar gyfer defnyddio technolegau amgylcheddol, ac argaeledd a defnydd cysylltiedig hyfforddiant a datblygu sgiliau a gydnabyddir gan y diwydiant.

Byddwn yn defnyddio ystod o dechnegau, strategaethau a ffynonellau gywbodaeth fel tystiolaeth o'r llwyddiant hwn yn cynnwys:

- gwerthusiadau allanol ac arolygon cyflogwyr
- adborth ffurfiol ac anffurfiol gan randdeiliaid
- y galw am a'r bodlonrwydd â'n gwasanaethau
- sicrhau busnes newydd
- natur a helaethder sylw yn y wasg
- llwyddiant bob blwyddyn wrth weithredu ein rhaglenni blynyddol

Rydym yn cydnabod bod technolegau amgylcheddol yn faes sy'n destun datblygiadau technolegol rheolaidd. Mae polisi'r llywodraeth a gofynion rheoleiddio yn cael eu diweddarau yn rheolaidd hefyd. Rydym felly yn cydnabod yr angen i adolygu'r strategaeth hon yn flynyddol.



